# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 23 MAWRTH 2017 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | A C S Colburn | D W Cole |
| A M Cook | S E Crouch | J P Curtice |
| N J Davies | P Downing | C R Doyle |
| V M Evans | C R Evans | W Evans |
| E W Fitzgerald | R Francis-Davies | F M Gordon |
| J A Hale | J E C Harris | C A Holley |
| P R Hood-Williams | D H Hopkins | L James |
| Y V Jardine | M H Jones | A J Jones |
| S M Jones | J W Jones | E J King |
| E T Kirchner | M B Lewis | R D Lewis |
| A S Lewis | C E Lloyd | K E Marsh |
| P M Matthews | P N May | P M Meara |
| H M Morris | G Owens | D Phillips |
| C L Philpott | J A Raynor | T H Rees |
| I M Richard | C Richards | P B Smith |
| R C Stewart | C Thomas | L G Thomas |
| M Thomas | L J Tyler-Lloyd | G D Walker |
| L V Walton | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R A Clay, U C Clay, A M Day, T J Hennegan, B Hopkins, D J Lewis, P Lloyd, J Newbury, R V Smith, R J Stanton, D G Sullivan, G J Tanner a/ac C M R W D Thomas

153. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, J P Curtice, J A Hale, C A Holley, S M Jones, E J King, A S Lewis, R D Lewis ac R C Stewart ddiddordeb personol yng nghofnod rhif 160 “Polisi Cyflogau 2017-2018”;

2) Datganodd y Cynghorwyr J E Burtonshaw, C A Holley, A J Jones, K E Marsh, C Thomas, M Thomas a T M White ddiddordeb personol yng nghofnod rhif 160 “Polisi Cyflogau 2017-2018” gan nodi eu bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau;

3) Datganodd y Cynghorwyr P Downing, S M Jones, K E Marsh, P N May, R D Lewis ac C L Philpott ddiddordeb personol yng Nghofnod 163 “Trefniadau Derbyn 2018-2019”;

4) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, J P Curtice, J E Harris, P R Hood-Williams, L James, J W Jones, M H Jones, R D Lewis a K E Marsh ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 165 “Cymeradwyo Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Gŵyr”;

5) Datganodd y Cynghorydd C R Doyle ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 166 “Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin” a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried;

6) Datganodd y Cynghorwyr J W Jones, M H Jones, S M Jones, C L Philpott, J A Raynor ac C Richards ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 169 “Cwestiynau Cynghorwyr.”

**Swyddogion**

1) Datganodd G Borsden, H Evans, M Hawes, T Meredith, P Roberts a D Smith ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 160 “Polisi Cyflogau 2017-2018” a gadawsant y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

2) Datganodd T Meredith ddiddordeb personol a rhagfarnol yng Nghofnod 161 “Ailstrwythuro'r Uwch-reolwyr - y Gyfarwyddiaeth Adnoddau” a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 154. <u>COFNODION.</u>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017;

2) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2017.

155. **YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.**

Ni chafwyd ymatebion ysgrifenedig.

156. **CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.**

**1) Ymosodiad San Steffan, Llundain**

Cyfeiriodd y Llywydd at dristwch yr ymosodiad terfysgol ar San Steffan, Llundain ar 22 Mawrth 2017. Hyd yn hyn, roedd 4 person wedi marw a 40 o bobl wedi'u hanafu, gyda 7 ohonynt yn dal i fod yn yr ysbyty mewn cyflwr difrifol. Y rhai a fu farw oedd Aysha Frade, Kurt Cochran, PC Keith Palmer a'r ymosodwr.

Roedd y baneri y tu allan i adeiladau dinesig y cyngor ar eu hanner a chafwyd munud o dawelwch gan y staff am 09.33 fel arwydd o barch yn dilyn yr ymosodiad ar San Steffan. Bu munud o dawelwch mewn mannau eraill hefyd ar draws y DU i nodi pryd dechreuodd y sesiwn seneddol yn Llundain.

Gwnaeth pawb a oedd yn bresennol godi fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**2) Gwobrau Cyfleoedd Llywodraeth Genedlaethol (GO) 2017-2018**

Cyhoeddodd y Llywydd fod Dinas a Sir Abertawe wedi ennill yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus Cyfleoedd Llywodraeth Genedlaethol 2017-2018 a gynhaliwyd ym Manceinion ar 21 Mawrth 2017. Y seremoni oedd pinacl Gŵyl Gaffael Gogledd Lloegr a mynychodd bron 600 o gynrychiolwyr o gymuned caffael cyhoeddus y DU gan fynd ben ben i ennill y brif wobr GO.

Enillodd tîm "Y Tu Hwnt i Frics a Morter" yr awdurdod "Wobr Menter Gyflogaeth Orau GO" a noddwyd gan Epson am ei waith rhagorol a'i bolisi manteision cymunedol. Ar ran yr awdurdod, gwnaeth longyfarch a diolch i bawb a gymerodd ran.

Cyflwynwyd Helen Beddow a Lee Wyndham o'r tîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter â'r wobr.

157. **CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.**

**1) Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi'i llofnodi ar 20 Mawrth 2017. Y fargen hon yw'r buddsoddiad mwyaf erioed yn yr ardal; gellid cyflwyno 10,000 o swyddi i'r rhanbarth gan roi hwb gwerth £1.3 miliwn i'r economi. Talodd deyrnged i'r tîm o bobl a gynorthwyodd i gyflawni hyn.

**2) Stadiwm Liberty**

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Arweinydd y Cyngor ar y trafodaethau ar gyfer cytundeb prydles newydd ar gyfer Stadiwm Liberty.

158. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Rhestrir y cwestiynau hynny a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

1) Gofynnodd David Davies gwestiynau am Gofnod 165 "Cymeradwyo Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr (AoHNE)".

*a) "Tudalen 199. Paragraff 3.38. Mae colli arian Ewropeaidd ar gyfer trafnidiaeth o ganlyniad i Brexit yn creu problemau ariannol i'r awdurdod hwn, yn arbennig ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru'n cynllunio system drafnidiaeth integredig genedlaethol.*

*i) A yw'n debygol yr effeithir ar wasanaeth Gower Explorer y Sul?*

*ii) A fydd y bartneriaeth rhwng y Cyngor a DANSA sy'n gwasanaethu Tregŵyr i Lanrhidian yn parhau i dderbyn arian ac a oes gan y cyngor unrhyw gynlluniau i ehangu'r gwasanaethau cludiant cymunedol, amwynder a gyflwynwyd gan y Cyngor Llafur hwn sy'n stori o lwyddiant?*

Datganodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant y darperir ymateb ysgrifenedig.

159. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - DIM**

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

160. **POLISI CYFLOGAU 2017/18.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Polisi Cyflogau 2017-2018.

**PENDERFYNWYD:**

1) Mabwysiadu Polisi Cyflogau 2017-2018.

161. **STRWYTHUR UWCH-REOLI - CYFARWYDDIAETH ADNODDAU'R.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cynnig strwythur Uwch-reoli yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) ddiwedd mis Mai 2017. Gwnaeth un newid i Atodiad 1 yr adroddiad drwy nodi y dylai "Etholiadau a Chofrestru ar gyfer Etholiadau" sef "y Gwasanaethau Etholiadol" ddod o dan y pennawd Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylai'r strwythur, yn amodol ar ymgynghoriad a nodwyd yn yr adroddiad, gael ei gymeradwyo;

2) Rhoddir caniatâd i'r Prif Weithredwr ymgynghori â phob un yr effeithir arno;

3) Bod hawl gan y Prif Weithredwr roi'r strwythur ar waith yn amodol ar newid 2) uchod i nodi nad oes newidiadau sylweddol.

162. **YMATEB I'R YMGYNGHORIAD - DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADERNID AC ADNEWYDDIAD.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor i'r ymatebion i'r Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad" a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu llunio ymateb manwl erbyn y dyddiad cau, sef 11 Ebrill 2017..

**PENDERFYNWYD:**

1) Bod y cyngor yn ystyried y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad', ac mae'n rhoi caniatád i'r Prif Weithredwr lunio ymateb mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor yn unol â'r ymatebion awgrymedig a amlygir mewn du yn yr adroddiad hwn.

163. **TREFNIADAU DERBYN 2018/2019.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad a oedd am bennu trefniadau derbyn ysgolion a gynhelir ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo trefniadau derbyn arfaethedig y Meithrin ar gyfer 2018-2019 fel a nodir yn Atodiad A yr adroddiad;

2) Cymeradwyo trefniadau derbyn arfaethedig y dosbarth Derbyn ar gyfer 2018-2019 fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad;

3) Cymeradwyo trefniadau derbyn arfaethedig Blwyddyn 7 ar gyfer 2018-2019 fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad;

4) Cymeradwyo trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer trosglwyddo yng nghanol y flwyddyn ar gyfer 2018-2019 fel a nodir yn Atodiad B yr adroddiad;

5) Cymeradwyo trefniadau derbyn arfaethedig/meini prawf derbyn ar gyfer chweched dosbarth ar gyfer 2018-2019 fel a nodir yn Atodiad C yr adroddiad;

6) Cymeradwyo'r Amserlen Ddigwyddiadau yn Atodiad Ch yr adroddiad;

7) Nodir niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn Atodiad D yr adroddiad.

## 164. DATGANIAD LLES 2017/18.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn nodi amcanion lles a datganiad lles 2017/2018 i'r cyngor fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**PENDERFYNWYD:**

1) Bod 5 blaenoriaeth allweddol y cyngor a fynegwyd yn ei Gynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2016/2017 yn parhau yn 2017/2018 fel amcanion lles y cyngor;

2) Cymeradwyo Datganiad Lles y cyngor ar gyfer 2017/2018;

3) Bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu amcanion lles y cyngor yn parhau ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol gyda'r Weinyddiaeth newydd etholedig i 2017/2018, a bod Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 165. CYMERADWYAETH CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL GWYR (AOHNE).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr fel Polisi'r Cyngor ac fel Canllaw Cynllunio Atodol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr fel Polisi'r Cyngor ac fel Canllaw Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Datblygu Lleol sydd yn yr arfaeth.

**Sylwer:** *Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald y cwestiwn canlynol:*

*"Tudalen 192, Paragraff 3.9. Ail frawddeg. A wnaiff yr Aelod Cabinet egluro pa ganolfan y cyfeirir ati?*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 166. ASESIAD O BOBLOGAETH BAE'R GORLLEWIN.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin; er mwyn awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi dolen i'r Asesiad

Poblogaeth ar wefan y cyngor ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Pobl i gyflwyno Asesiad Poblogaeth i Weinidogion Cymru ar ran y tri awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.

Rhoddwyd cyflwyniad gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Dave Howes) a Chyfarwyddwr Rhaglen Bae'r Gorllewin (Sara Harvey) ar Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid cymeradwyo Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin;

2) Rhoi caniatâd i Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi dolen i'r Asesiad Poblogaeth ar wefan y cyngor;

3) Rhoi caniatâd i'r Cyfarwyddwr Pobl gyflwyno Asesiad Poblogaeth i Weinidogion Cymru ar ran y tri awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.

## 167. DYDDIADUR Y CYNGOR 2017-2018.

Cyflwynodd y Llywydd, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu dyddiadur drafft y cyngor ar gyfer 2017-2018.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo Dyddiadur y Cyngor ar gyfer 2017-2018;

2) Ailgyflwyno dyddiadur y Cyngor ar gyfer 2017-2018 i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017 i'w ystyried ymhellach yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ar 4 Mai 2017;

3) Cynnal Arolwg Amserau Cyfarfodydd y Cyngor yn Hydref/Gaeaf 2017.

## 168. ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

## 169. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.

1) **‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.55 pm

**CADEIRYDD**